

# MAE CAETHWASIAETH YN AGOSACH NAG Y TYBIWCH

Mae'n digwydd ym mhob rhan o'r byd, yn cynnwys y Deyrnas Unedig. Gallwch helpu i roi terfyn ar Gaethwasiaeth Fodern yn y Deyrnas Unedig.

Dysgwch fwy yn **modernslavery.co.uk** neu adroddwch am unrhyw bryderon trwy ffonio'r llinell gymorth.

## 0800 0121 700

MODERN SLAVERY

## ARWYDDION I ADNABOD DIODDEFWYR

- Efallai y bydd dioddefwyr yn dangos arwyddion o **gam-drin** seicolegol, yn edrych fel pe baent **heb gael digon o faeth** neu'n flêr, neu wedi **mynd i'w cragen**
- Anaml y byddant yn cael teithio ar eu pen eu hun, mae fel petaent **dan reolaeth a dylanwad eraill** neu'n **anghyfarwydd â'u cymdogaeth** neu ble maent yn gweithio
- Maent yn byw mewn **llety gorlawn** brwnt neu gyfyng, a gallent fod yn byw a gweithio yn yr un cyfeiriad
- **Ychydig iawn o eiddo personol** sydd ganddynt, ac yn aml byddant yn gwisgo'r un dillad
- Fawr ddim cyfle i symud yn rhydd ac **nid oes ganddynt ddogfennau adnabod** neu bydd eu dogfennau teithio wedi eu cymryd oddi arnynt
- Efallai y byddant yn cael eu **hebrwng i ac o'r gwaith** yn rheolaidd naill ai'n **gynnar neu hwyr yn y nos**
- Efallai y bydd dioddefwyr yn **osgoi edrych i lygaid rhywun, yn ymddangos yn ofnus** neu'n gyndyn i siarad â dieithriaid ac yn ofni swyddogion gorfodi'r gyfraith
- Os yn **blentyn: ddim yn mynychu'r ysgol**, yn symud yn **rheolaidd**, mynd **ar goll**, yn byw gyda rhywun nad yw'n rhiant neu warchodwr